

PROFIAD MYFYRIWR RHWYDWAITH 75



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership



**Rebecca
Mason**
Myfyriwr
Rhwydaith 75
2018 - 2023

**Astudio
Peirianeg
Fecanyddol**

"Ymunais â Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC (NWSSP-SES) trwy Rhwydwaith 75 ym mis Medi 2018. Fel rhan o gynllun Rhwydwaith 75, astudiais radd BEng mewn Peirianeg Fecanyddol ym Mhrifysgol De Cymru yn rhan-amser, tra'n gweithio i NWSSP-SES. Rwyf bellach wedi gorffen fy mhrentisiaeth pum mlynedd, ac yn aros am fy nghanlyniadau prifysgol a fydd ar gael ar 28 Mehefin.

Drwy gydol fy amser yn PCGC, rwyf wedi cael llawer o brofiadau gwerthfawr, ac wedi cael cyfleoedd anhygoel. Rwyf wedi gweithio gyda pheirianwyr medrus a gwybodus iawn, sydd bob amser wedi cymryd amser i esbonio cysyniadau i mi a dangos pethau i mi a fydd o fudd i'm datblygiad fel peiriannydd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn ymwneud â chryn dipyn o wiriadau blynyddol ar systemau awyru critigol ledled Cymru. Rwyf hefyd wedi cwblhau prosesau dilysu systemau newydd yn ogystal â gweld systemau newydd yn cael eu comisiynu a chraffu ar y dyluniad.

Yn ogystal â'r profiad a gefais yn PCGC, rwyf hefyd wedi bod yn ffodus i gael y cyfle i fynd ar leoliadau secondiad. Yn ystod y cyfnod hwn cefais gyfle i ehangu fy ngwybodaeth ac i weld pethau o safbwynt newydd. Rwyf wedi gweithio gyda'r adrannau cyfalaf ac ystadau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, cymerais ran mewn secondiad yn adrannau ystadau Ysbyty'r Tywysog Siarl a Chanolfan Ganser Felindre. Yn ystod y profiad hwn roeddwn ymwneud â gwaith cynaliadwyedd. Cefais gyfle i weithio yn Ysbyty Athrofaol y Faenor am rai misoedd yn ystod y pandemig, a oedd yn gyfle unigryw lle roeddwn yn rhan o gamau olaf adeiladu ysbyty newydd. Yn ystod y profiad hwn dysgais lawer am Systemau Rheoli Adeiladau (BMS). Yn fwy diweddar, bûm ar secondiad yn Aecom, lle dysgais am broses dylunio'r systemau sy'n cadw ein hysbytai i weithio.

Mae'r pum mlynedd diwethaf wedi dysgu cymaint i mi ac rwy'n ymwybodol fy mod yn ffodus iawn i fod yn graddio o'r brifysgol gyda chymaint o brofiad. Rwyf hefyd yn ffodus bod PCGC yn cynnig fy nghefnogi i ddilyn gradd Meistr, a fydd yn fy helpu un diwrnod i fod yn beiriannydd siartredig."



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfriofoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi

Gwerthoedd craidd PCGC